**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad,

6 Mawrth 2025

**Adroddiad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**

Annwyl Mike,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 28 Chwefror yn tynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at ddau argymhelliad (5 a 6) yn eich adroddiad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru).

Cafodd yr argymhellion ystyriaeth gychwynnol yn ein cyfarfod ar 4 Mawrth, a nodwyd y ffaith eu bod yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried cyflwyno gweithdrefnau newydd yn y Chweched Senedd yn ymwneud â chraffu ar is-ddeddfwriaeth. Cytunwyd i roi ystyriaeth bellach i'r cynigion wrth ystyried blaenoriaethu ein rhaglen waith gweithdrefnol ar gyfer gweddill y Chweched Senedd yn gynnar yn nhymor yr haf.

Byddaf yn ysgrifennu gydag ymateb pellach i'r argymhellion ar ôl inni gynnal yr ymarfer blaenoriaethu hwnnw.

Cofion cynnes,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.